

Cofion a Chyfarchion

- Anfonwn ein cofion heddiw at y cleifion yn ein plith – Airys Jones (Peniel) sydd yn Ysbyty Glan Clwyd, a Gwyneth Williams (Llanfair) sy'n parhau i gael gofal yn yr Inffirmari. Cofiw'n hefyd am Selwyn Davies a Gwyndaf Williams (Nantglyn), y ddau wedi cael llawdriniaeth yn ystod yr wythnos ddiwethaf ond sydd wedi cael dod adref o'r ysbyty. Cyflwynwn y pedwar ohonynt, a phawb arall sydd heb fod cystal eu hiechyd y dyddiau hyn, i ofal Duw gan hyderu y byddant yn yn adnabod daioni Duw yn eu hamgylchynu.
- Llongyfarchiadau i Clwyd Rogers (Llanefydd), Ann Evans a Iorwen Roberts (Llansannan), a Robert Henry Roberts, Mair Williams a Beti Jones (Cefn Meiriadog) fydd yn derbyn y Fedal Gee am eu ffyddlondeb i'r Ysgol Sul mewn gwasanaeth arbennig prynhawn dydd Iau nesaf am 2.30 yng Nghapel Emaus (Peniel) Ffordd y Cariadon, Bangor LL57 2SB. Diolchwn am y chwech ohonynt, ac am bawb arall sy'n cynnal a diogelu gwaith yr Ysgol Sul yn ein heglwysi.

I ddod

- **DARLITH: DATHLU 450 MLYNEDD ERS CYHOEDDI Y TESTAMENT NEWYDD CYMRAEG GAN WILLIAM SALESBURY** – Fel rhan o'r dathliadau, cynhelir darlith wedi ei threfnu gan Gymdeithas Hanes Annibynwyr Cymru yng Nghapel Coffa Henry Rees, Llansannan nos Fercher, Hydref 4ydd am 7.30. Traddodir y ddarlith gan y Dr E. Gwynn Mathews. Croeso cynnes i bawb.
- **GWASANAETH DIOLCHGARWCH Y PLANT A'R IEUENCTID** yng Nghapel Saron dydd Sul, Hydref 8fed. Amser i'w gadarnhau.
- **OEDFA DIOLCHGARWCH CAPEL SARON** am 7.00 nos Iau, Hydref 12fed gyda'r Parch. Hugh Pritchard yn pregethu. Croeso cynnes i bawb.
- **PANED A SGWRS** yn Ffestri Llansannan pnawn dydd Mawrth, Hydref 17eg o 1.30-3.30. Croeso i bawb.
- **SWPER DIOLCHGARWCH** yn Neuadd Llanefydd nos Fercher, Hydref 18fed am 7.00 yng nghwmni Dr Owain Edwards. Bydd y casgliad yn mynd tuag at Apêl Corwynt Cariad.
- **OEDFA DIOLCHGARWCH CAPEL Y GROES** am 7.00 nos Wener, Hydref 20fed gyda'r Parch. Ddr Andras Iago yn pregethu. Croeso i bawb.
- **EISTEDDFOD Y PWYNTIAU PRION, PENIEL A SARON** nos Wener, Hydref 20fed am 5.30 yn Ysgol Pant Pastynog. Gwaith llên, barddoniaeth ac arlunio i fod yng Nghapel Prion erbyn 7.30 nos Wener, Hydref 1af.



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 24^{ain} Medi 2017

Darlleniad y Dydd

2 Cronicl 34:29-32

(BCND tud.425 / BCN tud.389)

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Bore da a chroeso i'r gwasanaethau ar draws y Fro heddiw. Gweddïwn y byddwn ni'n dod i adnabyddiaeth ddyfnach o'r Arglwydd Dduw ac yn sylweddoli dyfnder y pethau mae wedi ei wneud drosom ni.

Tybed ydych chi'r math o bobl sy'n cymryd un golwg ar y byd ac yn meddwl: "Doedd pethau ddim fel yma ers talwm" neu "Roedd y byd yn well pan oeddwn i'n iau"? Mae'n gallu bod yn bleserus i hel atgofion am ein bywydau a'r hyn ddigwyddodd dros y byd, a dechrau meddwl fod y byd wedi bod yn fêl i gyd yn y gorffennol. Awn i hel atgofion am amser cyn ffonau symudol a chyfrifiaduron, neu am ryw adegau hanesyddol mewn chwaraeon, neu ryw swydd arbennig oeddem ni'n ei fwynhau. Gallwn feddwl yn ôl weithiau at amser pan oedd ein capeli'n llawn a sŵn da wrth i'r gynulleidfa ganu emynau. Tybed ydym ni weithiau yn edrych ar gymdeithas ac yn tristáu wrth weld y "cyfeiriad mae hi wedi mynd iddi"?

Wrth i ni ystyried ein darlleniad heddiw, hawdd fyddai i ni ddechrau cael rhyw fath o hiraeth am arweinydd fel Joseia – yn uno'r wlad o dan faner yr Efengyl ac yn pwyntio pobl tuag at yr Arglwydd a'r ffordd gywir o fyw. Wrth ddarllen yr hanes am y brenin ifanc ffyddlon, mae'n codi ein hysbryd, ond hefyd yn gallu gwneud i ni feddwl: Pam na all hyn ddigwydd heddiw?

Dowch i ni felly edrych o dan yr wyneb i weld beth sydd wir yn mynd ymlaen yn y fan hyn. Mae gennym ni genedl (Jwda) sy'n adnabyddus am fod yn chwit-chwat am ei ffydd yn Nuw. Wedyn, allan o nunlle, mae Joseia yn dod yn frenin, yn darganfod sgroliau'r Gyfraith ac yn sylweddoli mai dyma'r ffordd y dylai Jwda fod yn byw. Mae wedyn yn dechrau cyfres o ddiwygiadau crefyddol yn y deyrnas. Da iawn. Ochr arall y geiniog ydy proffwydoliaeth Jeremeia (3:6-10). Yma cawn olygfa dra wahanol o beth sy'n digwydd. "Ond er gwaetha hyn i gyd, dydy Jwda, ei chwaer anffyddlon, ddim wedi troi'n ôl ata i go iawn. Dydy hi ddim ond yn esgus bod yn sori" (Jeremeia 3: 10). Er gwaetha'r holl newidiadau i'r grefydd ac i'r wladwriaeth ac i addoliad, mae Duw yn dweud mai dim ond newid yr arwyneb oedd pobl Jwda, dim ond esgus ei bod yn sori. Tystiolaeth hyn oedd sut wnaethon nhw gefnu ar Dduw ar ôl diwedd teyrnasiad Joseia. Roedd Duw eisiau i galonnau pobl newid a throi yn ôl ato fo.

Rydym yn byw mewn cyfnod sy'n anodd i fod yn Gristion yn y gymdeithas, ond mae'n rhaid i ni gofio fod gan Dduw ddiddordeb yn ein calonnau ni ac mewn cael perthynas glos efo ni. Felly, yn lle poeni a gofidio am ein cymdeithas, llywodraeth, neu eglwysi, dewch i ni - o flaen pob peth arall - ddod at Dduw a gwneud ein perthynas gydag Ef yn iawn.

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled 

Gwion

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 24^{ain} ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Eryl Davies, a bydd Rhodri yn pregethu.
- Mawrth – 26^{ain} ➤ **Cyfarfod Plant Ysgol Pant Pastynog** o 3.00-4.30.
- Mercher – 27^{ain} ➤ **CIC +** (Cyfle ar gyfer pobl ifanc bl. 10+ i dyfu fel Cristnogion) ym Mhreswylfa, Cefn Meiriadog o 4.00-5.30.
- **Noson i gyflwyno'r cynlluniau ar gyfer grwpiau tai a chyfarfodydd ganol wythnos y Fro am y flwyddyn i ddod** yn y Granar, Llansannan am 7.30.
- Iau – 28^{ain} ➤ **Cyfarfod Gwobrwyo Ffyddloniaid yr Ysgol Sul â'r Fedal Gee** yng Nghapel Emaus (Penuel), Ffordd y Cariadon, Bangor LL57 2SB am 2.30.
- **Cyfarfod Plant Llansannan** o 3.15-4.30.
- Sadwrn – 30^{ain} ➤ **Cyfarfod Sefydlu y Parch. Ddr Andras Iago yn Weinidog ar Eglwysi Bro Dinbych** yng Nghapel Mawr, Dinbych dydd Sadwrn, Medi 30ain am 2.00.

Sul nesaf – 1^{af}

SUL ARBENNIG I'R FRO

IDDATHLU 450 MLWYDDIANT CYFIEITHU'R

TESTAMENT NEWYDD I'R GYMRAEG

yng nghwmni Arfon Jones, Caerdydd
fu'n bennaf gyfrifol am gyfieithu beibl.net.

Yn y bore, bydd oedfa i'r teulu cyfan yn Llansannan **am 10.30**, ac yna amser cinio, bydd mochyn wedi ei rostio a phwddin i bawb yn y Ganolfan, a chwaraeon i'r plant i ddilyn.

Ar ôl cinio, bydd cyfle i fynd draw i Dŷ Mawr Wybrnant (ger Penmachno) lle ganwyd yr Esgob William Morgan, sef cyfieithydd cyntaf y Beibl cyfan i'r Gymraeg.

I gloi dathliadau'r dydd, bydd oedfa yn Llansannan **am 6.00**.

PWYSIG Fel y gallwn drefnu ar eich cyfer, os ydych am aros i ginio ac/neu am ddod i Dŷ Mawr Wybrnant, wnewch chi roi eich enw i Mair

HEDDIW (Medi 24ain), os gwelwch yn dda?

Pris y cinio: £4 i oedolion a £2 i blant ysgol gynradd.

Pris mynediad i Dŷ Mawr Wybrnant: £2.50 i oedolion a £1 i blant.

Cyhoeddiadau

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 24^{ain} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 10.30. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

Llansannan a Nantglyn

- Sul yma – 24^{ain} ➤ Bydd y Parch. Goronwy Prys Owen yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul i'r oedolion am 11.10.
- Ni fydd oedfa yn Nantglyn.
- Mercher – 27^{ain} ➤ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion Jones, Y Gorlan (870656) **HEDDIW**, os gwelwch yn dda.

Saron a Pheniel

- Sul yma – 24^{ain} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa gymun i'r daith ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00.

Henllan a Groes

- Sul yma – 24^{ain} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Henllan am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 24^{ain} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.

Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291
Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 582644 📞 07849 591163
Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536

Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.